CYHOEDDWYD MAWRTH 2021

# Cynllun Busnes CITB

citb Cymru Wales



2021-22



# Rhagair y Prif Weithredwr

## Buddsoddi eich Lefi i ddiwallu eich anghenion am sgiliau

Yn 2020, newidiodd popeth.

O ganlyniad i bandemig COVID-19, gwnaeth llawer o safleoedd adeiladu gau a, phan wnaethant ailagor, roedd angen ymgyfarwyddo â rheolau newydd ar gyfer gweithio arnynt. Mae pobl wedi gorfod ymaddasu i gyfyngiadau ar eu bywydau economaidd a chymdeithasol – rhywbeth annychmygadwy cyn y pandemig.

Gwnaethom ymateb i'r sefyllfa honno drwy wrando arnoch a gwneud y newidiadau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth ar unwaith.

Gwnaethoch ddweud wrthym mai llif arian oedd y broblem fwyaf. Felly, penderfynodd ein Bwrdd, yn bendant ac yn gywir, na fyddai'r Lefi'n cael ei gasglu am bum mis – y tro cyntaf i hynny ddigwydd erioed.

Gwnaethom lunio cynllun a oedd yn canolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn iawn – diogelu prentisiaethau a rhoi cyllid yn uniongyrchol i gyflogwyr. Mae'r ffaith mai dim ond 24 allan o 11,000 o'n prentisiaid sydd wedi colli eu swydd yn ystod yr argyfwng economaidd gwaethaf yn ein hoes yn dangos bod rhoi ein prentisiaid yn gyntaf nid yn unig yn gywir, ond yn effeithiol.

Flwyddyn ers y cyfyngiadau symud cyntaf hynny, gallwn fod yn obeithiol iawn bod y diwydiant adeiladu'n adfer ac y bydd yn parhau i wneud hynny. A dweud y gwir, gall y diwydiant adeiladu fod yn un o ychydig o ddiwydiannau sy'n cynnig nifer fawr o swyddi wrth iddo adfer a moderneiddio, a hynny i gyd drwy ddatblygu ei dalent.

Yn dilyn ffocws ein Cynllun Strategol ar gyfer 2021-25, mae a wnelo'r cynllun hwn â thri pheth:

### 1. YR HANFODION

Byddwn yn helpu cyflogwyr i ddiwallu eu hanghenion cyfredol am sgiliau a hyfforddiant drwy roi grantiau a chyllid a darparu cynhyrchion a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cymorth ymarferol yn rhad ac am ddim o ddydd i ddydd i gyflogwyr, megis ein e-gwrs COVID-19.

### 2. SICRHAU BOD SGILIAU AR GAEL YN HAWS HEDDIW

Byddwn yn helpu'r diwydiant i ddod â gweithwyr newydd i mewn iddo ac yn helpu pobl dalentog i ymuno â'r diwydiant. Byddwn yn helpu cyflogwyr i roi cyfleoedd i wneud profiad gwaith a chynyddu nifer y bobl sy'n cwblhau eu prentisiaeth hyd yr eithaf.

### 3. YMBARATOI AR GYFER HERIAU YFORY

Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant adeiladu, y Llywodraeth ac eraill i helpu cyflogwyr i wynebu heriau sy'n dod i'r amlwg (yr heriau mwyaf yw Brexit, sgiliau digidol, newid yn yr hinsawdd a'r targed sero-net erbyn 2050).

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein cynlluniau'n adlewyrchu eich anghenion. Rydym yn rhoi 94c o bob punt yn ôl i'r diwydiant drwy grantiau, cyllid a chymorth arall, megis ymchwil a gwaith i helpu i lywio polisi sgiliau. Drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol y gallwn eu cyflawni, rydym yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf.

Hon fydd fy mlwyddyn olaf yma, ac rwy'n falch o'n hanes o gyflawni. Rydym wedi dod yn sefydliad mwy darbodus a mwy ymatebol – y sefydliad y gwnaeth cyflogwyr, yn gywir, ei fynnu.

Rwy'n gweld diwydiant sydd wedi cyd-dynnu'n rhyfeddol o dda dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n rhaid i'r cydweithrediad hwnnw barhau. Mae'n rhaid i bob un ohonom gefnogi mentrau ar draws y diwydiant, megis y wefan Am Adeiladu a Talentview, a rhoi'r gorau i ddyblygu ymdrech er mwyn datrys problemau mawr megis recriwtio ac amrywiaeth. Dim ond drwy ddod ynghyd y bydd y problemau hynny, y mae rhai ohonynt wedi bodoli ers degawdau, yn cael eu taclo unwaith ac am byth.

Ar ôl blwyddyn anghyffredin yn 2020, byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer y Lefi eleni. Bydd y cynllun busnes hwn yn pontio'r sylfeini a osodwyd yn ein Cynllun Sefydlogrwydd Sgiliau ar gyfer 2020-21 a'n darpariaeth tymor hwy ar gyfer y diwydiant erbyn 2025.

Dylai hefyd ategu sgyrsiau ynghylch eich anghenion cyfredol a heriau yn y dyfodol a sut, gyda'n gilydd, y gallwn adeiladu Prydain well.



**Sarah Beale**
Prif Weithredwr

# Trosolwg ar gyfer 2021-22

Mae'r cynllun busnes hwn yn adeiladu ar ddwy ddogfen a gyhoeddwyd yn 2020 a nododd ein bwriad i ganolbwyntio ar lai o flaenoriaethau a sicrhau bod y blaenoriaethau hynny'n cael yr effaith fwyaf.

Gwnaethom ymateb yn syth i bandemig COVID-19 drwy gyhoeddi ein Cynllun Sefydlogrwydd Sgiliau ar gyfer 2020-21 yn ystod y don gyntaf, a nododd sut y byddem yn mynd ati i roi cymorth hanfodol i gyflogwyr.

Ar ôl hynny, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Strategol ar gyfer 2021-25, a nododd sut y byddwn yn cyflawni nodau tymor hwy ac yn diwallu anghenion cyfredol cyflogwyr. Mae hyn yn golygu parhau i roi cyllid yn uniongyrchol i gyflogwyr a diogelu prentisiaethau ond, eleni, gallwn ddechrau mynd i'r afael â heriau mwy.

## Gweithio gyda'r Llywodraeth

Mae ein safle unigryw rhwng y diwydiant a'r Llywodraeth yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i ddefnyddio ein dylanwad er mwyn sicrhau canlyniadau i gyflogwyr.

Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau cyllid gan y Llywodraeth yn well, ac rydym wedi helpu i ddatblygu'r Gronfa Sgiliau Genedlaethol. Bydd bŵt-camp sgiliau newydd a chyrsiau hyfforddi ar Lefel 3 i oedolion sydd ar gael yn rhad ac am ddim yn helpu'r diwydiant i uwchsgilio.

Mae hyn yn dilyn buddsoddiad mawr y Llywodraeth yn y Gronfa Sgiliau Adeiladu a'n cefnogaeth ein hunain i'r model 'hybiau ar safleoedd adeiladu' sy'n darparu hyfforddiant am ddim ar gyfer y rhai sy'n ymadael â'r ysgol, y rhai sy'n ddi-waith neu'r rhai sy'n newid gyrfa ac sydd am ymuno â'r diwydiant. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys gweithio gyda'r Llywodraeth i alluogi talwyr y Lefi Prentisiaethau i rannu'r manteision â busnesau llai a lansio'r hyfforddeiaeth newydd a phrentisiaethau carlam sy'n cydnabod dysgu blaenorol (gweler tudalen 10).

## Y cynllun

Mae'r cynllun hwn ar gyfer blwyddyn yn unig, sef 2021-22. Y cynllun yw'r cam cyntaf yn y broses o gyflawni ein Cynllun Strategol. Bydd llawer o bethau'n cael eu cyflawni'r flwyddyn hon. Bydd yn cymryd mwy o amser i gyflawni pethau eraill ond, yn achos pob prosiect neu raglen, byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am y cynnydd a wnaed. Er mwyn dangos ein cynnydd, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad ar ein gwefan bob chwarter.

Er bod rhai prosiectau newydd wedi'u nodi ar y tudalennau hyn, bydd y strwythur a'r ffocws yn gyfarwydd.

Nid yw **ein cenhadaeth** – denu pobl i'r diwydiant a'u helpu i ddatblygu er mwyn adeiladu Prydain well – wedi newid.

Nid oes unrhyw newid i'n **tair blaenoriaeth strategol**, sef:


- **Gyrfaoedd** – denu pobl i'r diwydiant a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo
- **Hyfforddi a Datblygu** – sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael
- **Safonau a Chymwysterau** – sicrhau bod safonau ar gael er mwyn gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol

Ceir adran ar gyfer pob un ohonynt (tudalennau 5 i 15) sy'n amlinellu'r hyn y byddwn yn ei wneud a thargedau i'w cyrraedd. Mae'r adran sy'n rhestru **ein prosiectau a'n rhaglenni** (tudalennau 16 i 19) yn esbonio beth ydynt a beth maent yn ei olygu i gyflogwyr.

Mae rhai themâu'n dod i'r amlwg ar draws y tudalennau hyn. Mae **arwain a rheoli**, er enghraifft, yn bwnc trafod. Os yw'r diwydiant yn mynd i foderneiddio a dod yn fwy cynhyrchiol, mae'n wir y bydd angen yr adnoddau cywir ar arweinwyr, rheolwyr a goruchwylwyr i lwyddo.

Blaenoriaeth arall sy'n ymsefydlu yw **sero-net**, sef y term ar gyfer yr adeg pan na fydd ein heconomi'n cynyddu swm net y carbon deuocsid yn yr aer mwyach. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud hyn yn darged cyfreithiol rwymol i'w gyrraedd erbyn 2050. Y flwyddyn hon, byddwn yn nodi'r safonau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gyrraedd y targed ac yn gweithio gyda'r Llywodraeth a darparwyr hyfforddiant i sicrhau y bydd yr hyfforddiant ar gael. Bydd ôl-osod yn faes allweddol wrth i'r gwaith o drawsnewid y diwydiant ddechrau.

Yn y cynllun hwn, rydym yn cynnig y **10 prif sgìl blaenoriaethol**. Mae'r rhain wedi'u hysgogi gan ein hymchwil a'n sail dystiolaeth, yn ogystal â sgyrsiau â chyflogwyr i weld a ydym wedi nodi'r sgiliau cywir. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau megis gosod brics (gan y bydd cynnydd yn y galw am y sgìl hwn yn dilyn twf cryf ym maes adeiladu cartrefi), gweithredu peiriannau (sgìl sydd ei angen ar gyfer gwneud gwaith seilwaith) a sgiliau digidol (sgiliau y bydd eu hangen ar bawb). Bydd y 10 prif sgìl hyn yn dod yn fwy pendant dros yr ychydig fisoedd nesaf.



# Trosolwg ar gyfer 2021-22

## Trosolwg ariannol

Bydd y Lefi y byddwn yn ei gasglu eleni'n llai – byddwn yn casglu £148.8m yn lle £188m (sef y rhagolwg cyn pandemig COVID-19 ar gyfer 2021-22), sy'n ostyngiad o £39.2m. Mae hyn oherwydd ein penderfyniad i gynnig 'gwyliau talu' o bum mis i gyflogwyr er mwyn diogelu eu llif arian tra bod y cyfyngiadau symud cyntaf ar waith. Er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau anghyffredin hynny, gwnaethom benderfynu haneru'r Lefi i'w gasglu yn 2021-22 a chynnig ymestyn talu Lefi 2019 dros gyfnod hirach. Mae trosolwg llawn o'r gwaith y byddwn yn ei wneud a'r arian a fydd yn cael ei fuddsoddi i'w weld ar dudalen 20.

Yn ystod 2020, gwnaethom newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, gan gynnwys cynnal ymarfer ailstrwythuro a lleihau costau. Nod y newidiadau hyn oedd cwtogi £6m ar ein costau, a fyddai'n arbed £24m erbyn 2025. Byddwn yn parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd i sicrhau, erbyn 2025, y byddem wedi cwtogi 16% ar ein gwariant gweithredu yn 2021-22.

Mae'r newidiadau hyn yn ein galluogi i wario 94c o bob punt o'r Lefi ar helpu cyflogwyr a'r diwydiant yn gyffredinol. Rydym yn gwneud hyn drwy roi cyllid yn uniongyrchol i gyflogwyr, rhoi cymorth i gyflogwyr, gwneud gwaith arall y tu ôl i'r llenni (megis ymchwil a gwaith i ddylanwadu ar bolisi i sicrhau bod y Llywodraeth yn blaenoriaethu'r diwydiant adeiladu), gweithio mewn partneriaeth a helpu prentisiaid ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

## Ein gwaith ledled Prydain

Mae'r cynllun busnes hwn wedi'i ategu gan gynlluniau'r gwledydd sy'n tynnu sylw at ein gwaith ym mhob gwlad. Mae'r rhain yn tynnu sylw at anghenion penodol y gwledydd hynny a sut y gallwn weithio'n effeithiol gyda phartneriaid lleol i gyflawni blaenoriaethau strategol cyffredin.

## Grantiau a chyllid sy'n sicrhau canlyniadau gwell

Mae ein gwaith yn cael ei arwain gan ein Bwrdd sy'n cynnwys arweinwyr y diwydiant o fusnesau bach, canolig a mawr, yn ogystal â phobl sy'n arbenigo mewn addysg a sgiliau.

Mae Cynghorau'r Gwledydd (Cyngor Cymru, Cyngor Lloegr a Chyngor yr Alban), yn ogystal â phwyllgorau sy'n cadw golwg ar feysydd penodol megis cyllido'r diwydiant a'r strategaeth ar gyfer y Lefi, yn cynghori'r Bwrdd.

Mae Pwyllgor Cyllido'r Diwydiant Adeiladu wedi bod yn adolygu'r Cynllun Grantiau er mwyn sicrhau bod cyllid y Lefi'n cael ei dargedu'n fwy i ddiwallu anghenion y diwydiant am sgiliau. Bydd y gwaith adolygu hwn yn parhau yn ystod 2021, a bydd amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n cynrychioli busnesau bach, canolig a mawr ledled Prydain yn cyfrannu ato.

Yn 2021-22, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Targedu'r Cynllun Grantiau, yn ogystal â chyllid arall, yn fwy i roi sylw i'r 10 prif sgìl blaenoriaethol (fel y nodir ar dudalen 10)
- Cytuno ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion am hyfforddiant arwain a rheoli a mynd ati i wneud hynny
- Profi ffordd newydd o gaffael hyfforddiant ac arbed arian i'r diwydiant, sy'n dangos pa mor werthfawr yw cydweithio (gallai swmp-brynu leihau'r angen i wneud cais i'r Cynllun Grantiau a helpu i sicrhau bod ansawdd hyfforddiant yn aros yn uchel)
- Buddsoddi cymaint â phosibl yn y rhwydwaith o Grwpiau Hyfforddiant i sicrhau bod hyfforddiant ar gael i gyflogwyr fel rhan o'n cymorth cyffredinol yn y maes hwn

## Adolygiad sylfaenol o'r Lefi

Y gwanwyn hwn, byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer y Lefi, lle byddai'r cyfraddau'n union yr un peth â'r rhai a godwyd yn ystod 2020-21. Mae'r Pwyllgor Strategaeth ar gyfer y Lefi, sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr, wedi dweud nad dyma'r amser iawn, tra bod y diwydiant yn adfer o'r pandemig, i wneud newidiadau sylweddol. Fodd bynnag, mae wedi argymell ein bod yn adolygu'n llawn sut mae'r diwydiant yn newid a beth mae hyn yn ei olygu i'r Lefi o ran sut mae'n cael ei gyfrifo a'i gasglu. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau, a bydd yn parhau drwy gydol y flwyddyn.



### Colegau Adeiladu Cenedlaethol

Byddwn yn cadw'r Colegau Adeiladu Cenedlaethol yn Bircham Newton yn Norfolk ac yn Inchinnan yn yr Alban, a bydd trafodaethau gyda darparwr hyfforddiant i werthu'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn Erith yng Nghaint yn parhau. Mae gwneud hyn yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod hyfforddiant pwysig a gwerthfawr ar gael i gyflogwyr ble bynnag a phryd bynnag y mae ei angen arnynt.

# **Gyrfaoedd:** Helpu pobl dalentog i ymuno â'r diwydiant adeiladu a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo

Mae'n bwysig bod pobl dalentog, yn enwedig y rhai sy'n gweithio mewn diwydiannau eraill, yn cael eu denu i'r diwydiant adeiladu a'r cyfleoedd sydd ar gael ac y gallant ymuno â'r diwydiant yn hawdd.

Ni waeth pa mor bwysig yw hynny, mae cadw'r sgiliau sydd eisoes ar gael yn y diwydiant yr un mor bwysig. Mae'r heriau hyn wedi difrifoli ers Brexit, ac mae ein rhagolwg diweddaraf sy'n dangos bod angen 41,000 o weithwyr newydd bob blwyddyn i ateb y galw wedi eu dangos yn glir.

Mae prentisiaid wrth wraidd yr ateb. Drwy gydol pandemig COVID-19, rydym wedi diogelu prentisiaethau, a dim ond 1.2% o'r prentisiaid hynny y gwnaethom roi cymorth iddynt sydd wedi colli eu swydd. Rydym wedi gweithio gyda chyflogwyr, y Llywodraeth a cholegau i sicrhau'r llif hwn o dalent.

Wrth symud ymlaen, rydym yn mynd i gefnogi pob cyflogwr â phrentis. Y nod yw cynyddu nifer y prentisiaid a gwella ansawdd ac amrywiaeth yn eu plith i sicrhau 25,000 o brentisiaid newydd erbyn 2025.

Yn y cynllun hwn, rydym yn pellhau oddi wrth arwain ymgyrchoedd mawr ac, yn lle hynny, yn canolbwyntio ar sut y gallwn gydweithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Rydym yn helpu i ysbrydoli pobl ifanc a dangos iddynt y cyfleoedd sydd ar gael. Un ffordd rydym yn gwneud hyn yw drwy gefnogi **cenhadon Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg**, rhwydwaith o wirfoddolwyr gwych sy'n ymweld ag ysgolion a cholegau er mwyn dangos sut y gall y pynciau hyn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd cyffrous yn y diwydiant adeiladu.

Mae **SkillBuild**, cystadleuaeth sgiliau adeiladu sydd wedi'i chynnal ers peth amser, yn rhoi prentisiaid a hyfforddeion y cyfle i gystadlu yn erbyn ei gilydd am deitlau cenedlaethol arbennig. Mae'r pandemig yn golygu nad oes modd cynnal y gystadleuaeth eleni, ond y bwriad yw ei chynnal yn 2022.

Mae tri nod i'n gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth Gyrfaoedd. Y rhain yw:

- Rhoi **gwybodaeth o ansawdd uchel** er mwyn i bobl wybod beth sydd ei angen i ymuno â'r diwydiant
- Rhoi **profiadau blasu** byr i bobl er mwyn cyflwyno'r diwydiant iddynt
- Helpu pobl i **ymuno â'r diwydiant** drwy weithio gyda chyflogwyr i roi profiad gwaith ystyrlon

## Gwybodaeth o ansawdd uchel

Y wefan Am Adeiladu yw'r adnodd i'w ddefnyddio o hyd i gael gwybodaeth am yrfaoedd yn y diwydiant ac, ar gyfartaledd, mae'n codi mewn 2 miliwn o ganlyniadau chwilio bob mis (i fyny o 1 miliwn yn 2019). Flwyddyn ddiwethaf, cafodd y wefan ei defnyddio gan fwy na 600,000 o bobl, gan gynnwys myfyrwyr, athrawon a'r rhai sydd am ailsgilio, i weld beth sydd gan y diwydiant i'w gynnig.

Mae llwyth o wybodaeth ymarferol ar gael arni, gan gynnwys straeon ysbrydoledig ac adnoddau dysgu.

Y flwyddyn hon, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau cysylltiad clir rhwng y wybodaeth rydym yn ei rhoi a'r sgiliau sydd eu hangen fwyaf. Gallai hyn dynnu sylw defnyddwyr at hyfforddiant, prentisiaeth neu swydd.

## Astudiaeth achos: Diogelu prentisiaethau

**Beth?**
Gweithio gyda chyflogwyr, colegau a darparwyr hyfforddiant i gefnogi a chadw prentisiaid yn ystod y pandemig

**Sut?**
- Mentora'n uniongyrchol
- Dysgu ar-lein
- Rhoi gofal bugeiliol
- Tynnu sylw at y Cynllun Cadw Talent a'r Gwasanaeth Cymorth Diswyddo i Brentisiaid

**Effaith**
- 10,976 o'r tua 11,000 o brentisiaid a gefnogwyd wedi'u cadw yn y diwydiant
- Prentisiaid newydd yn dal i gael eu cefnogi drwy'r Cynllun Rhannu Prentisiaeth
- Cyfraddau cwblhau prentisiaeth yn gwella ymhellach drwy ddiogelu cyllid

"Mae CITB wedi sicrhau ei fod yn cysylltu â phrentisiaid, wedi bod yn rhan o'u hadolygiadau rheolaidd ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, y cyflogwr, yn ôl y gofyn."

**Laura Murphy, Fortem, Dwyrain Lloegr**

Talentview a'r Cynllun Cadw Talent yw'r ffenestr siop ar gyfer cyfleoedd yn y diwydiant, ac mae disgwyl iddynt chwarae mwy o rôl yn y blynyddoedd sydd i ddod yn y gwaith o ddiogelu sgiliau. Maent yn gynlluniau sy'n galluogi cyflogwyr i sicrhau gweithlu mwy amrywiol drwy gynnig llwybr syml i'r holl gyfleoedd sydd ar gael.



# **Gyrfaoedd:** Helpu pobl dalentog i ymuno â'r diwydiant adeiladu a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo

## Profiadau blasu

Rydym yn gwybod y gall cael profiad go iawn o'r diwydiant adeiladu wneud byd o wahaniaeth.

Gall droi syniad amwys rhywun o swydd yn ddealltwriaeth glir bod gyrfa, a all newid ei fywyd, yn cael ei gynnig. Po fwyaf o bobl sy'n sylweddoli hyn, ehangach fydd ein cronfa dalent. Hefyd, bydd pobl yn cael gwybod a yw'r diwydiant adeiladu'n iawn iddynt. Mae'n beth da ym mhob ffordd.

Dyna pam rydym yn gweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru, Lloegr a'r Alban i roi profiadau blasu. Byddwn yn helpu cyflogwyr i roi **4,000 o brofiadau blasu** erbyn diwedd 2021-22 ac yn adeiladu ar hynny o'r pwynt hwnnw.

## Ymbaratoi ar gyfer gwaith ar y safle adeiladu

Pan fydd pobl yn ymuno â'r diwydiant, mae'n bwysig eu bod nid yn unig yn fedrus, ond yn barod ar gyfer y safle adeiladu.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi rhedeg hybiau'r Gronfa Sgiliau Adeiladu ar y cyd â'r Adran Addysg a Hybiau Profiad o Weithio ar Safle Adeiladu ledled Cymru a Lloegr er mwyn helpu pobl, yn arbennig y rhai mewn diwydiannau eraill neu sy'n ddi-waith, i ymbaratoi ar gyfer gwaith ar y safle adeiladu.

Fel rhan o'r model '**hybiau ar safleoedd adeiladu**', mae safleoedd adeiladu go iawn yn rhoi profiad i weithwyr newydd posibl i'w helpu i ymbaratoi ar gyfer ar y safle adeiladu. Mae'r hybiau wedi bod yn llwyddiant, a byddant yn dal i roi'r profiad hwn eleni. Ar ben hynny, byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Gronfa Sgiliau Genedlaethol er mwyn helpu i uwchsgilio gweithwyr, a hynny drwy gynnig bŵt-camp sgiliau newydd a chyrsiau hyfforddi am ddim ar Lefel 3 i oedolion.

Mae'r gwaith hwn yn ceisio cau bylchau mewn sgiliau allweddol ar Lefel 3 ac uwch. Bydd yn canolbwyntio ar helpu pobl i gamu ymlaen i swyddi goruchwylio a rheoli, lle bydd eu sgiliau'n helpu cyflogwyr i foderneiddio a manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan darged sero-net y Llywodraeth i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

> Mae 'Parodrwydd ar gyfer Cyflogaeth a'r Safle Adeiladu' yn golygu bod gweithiwr wedi dangos **y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad** sydd eu hangen i weithio'n ddiogel ar safle adeiladu a'i fod yn deall ei gyfrifoldebau amdano ef ei hun a'i gydweithwyr. Mae angen dangos yr un sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad ar gyfer pob swydd yn y diwydiant adeiladu, ond bydd angen i weithiwr ddangos bod ganddo'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd dan sylw, hefyd.

## Iechyd a lles

Rhan o'r gwaith o gadw pobl yn y diwydiant yw sicrhau ein bod yn gofalu am ein hiechyd a'n lles ein gilydd. Mae hyn yn rhywbeth sy'n bwysig iawn i ni. Er bod y cyfyngiadau symud yn 2020 wedi ein gorfodi i oedi'r gwaith roeddem yn ei wneud gyda phartneriaid i greu **hwb iechyd meddwl ar gyfer y diwydiant adeiladu**, mae'r gwaith hwn bellach wedi ailddechrau. Byddwn yn helpu i sicrhau y gall 150,000 o weithwyr ei ddefnyddio erbyn diwedd 2021-22.



# **Gyrfaoedd:** Helpu pobl dalentog i ymuno â'r diwydiant adeiladu a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo

| MAES | TARGED 2025 | TARGED 2021-22 |
|---|---|---|
| **Dangosydd perfformiad allweddol cyffredinol** | Gwella barn pobl ar ba mor hawdd y gallant ymuno â'r diwydiant adeiladu o'i gymharu â diwydiannau eraill: 'Pa mor hawdd/anodd oedd hi i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am yrfaoedd, yn ogystal â phrofiad gwaith a swyddi yn y diwydiant adeiladu?' – mae'r llinell sylfaen ar gyfer y targed hwn yn cael ei ddatblygu (ymchwil yn cael ei gwneud ar hyn o bryd) | |
| **Rhoi gwybodaeth** | Ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i wybodaeth am ffyrdd o ymuno â'r diwydiant adeiladu, hyfforddi a chamu ymlaen yn eu gyrfa ar gyfer y swyddi y mae'r galw mwyaf amdanynt – bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi ar Am Adeiladu bob blwyddyn ar gyfer y 10 prif swydd y mae'r galw mwyaf amdanynt ar sail data'r Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu | |
| **Cynyddu faint o brofiad gwaith tymor byr sy'n cael ei roi** | Rhoi 28,000 o brofiadau blasu (ac eithrio profiadau drwy hybiau) ledled Prydain | 4,200 |
| **Cynyddu nifer y profiadau o weithio ar safle adeiladu sy'n cael eu rhoi drwy hybiau** | Rhoi dros 16,000 o brofiadau o weithio ar safle adeiladu a sicrhau o leiaf 11,600 o weithwyr 'parod ar gyfer cyflogaeth a'r safle adeiladu' ychwanegol ledled Prydain drwy hybiau sy'n cael eu cyllido gennym | Rhoi 3,682 o brofiadau o weithio ar safle adeiladu<br><br>Sicrhau 2,490 o weithwyr 'parod ar gyfer cyflogaeth a'r safle adeiladu' |
| **Cynyddu nifer y swyddi parhaol** | Helpu 4,807 o bobl i ddod o hyd i swydd barhaol yn y diwydiant drwy hybiau sy'n cael eu cyllido gennym | 973 |

## Astudiaeth achos: Datblygu sylfaen wybodaeth gyffredin – llwyddiant a chamau nesaf ar gyfer Am Adeiladu

**Beth?**

Gwella cyrhaeddiad a defnydd o Am Adeiladu, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o yrfaoedd yn y diwydiant

**Sut?**

- Cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth o ansawdd da
- Cynnwys esiamplau ysbrydoledig
- Cyhoeddi adnoddau addysgol
- Cyfeirio at gyfleoedd go iawn

**Effaith**

- Sylw'n cael ei roi i'r bwlch mewn sgiliau
- Cynnydd o 86% yn nifer y bobl newydd a ymwelodd â'r wefan o ganlyniadau chwilio yn 2020
- Prosiectau dysgu wedi'u cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru
- Ymwybyddiaeth i gael ei gwella ymhellach drwy greu cysylltiadau â gwefannau partner

"Gallai'r wybodaeth werthfawr hon am yr ystod o yrfaoedd sydd ar gael yn y diwydiant, ar adeg mor gynnar yn natblygiad person ifanc, gael effaith fawr iawn."

**Jon Williams, Rheolwr Gyfarwyddwr**
**WRW Construction Ltd, Cymru**



# **Gyrfaoedd:** Helpu pobl dalentog i ymuno â'r diwydiant adeiladu a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo

| NODAU AR GYFER Y FLWYDDYN HON | EIN GWAITH I GYFLAWNI NODAU STRATEGOL AR GYFER 2021-25 | GWEITHIO GYDA CHYFLOGWYR A PHARTNERIAID I SICRHAU BOD POBL SYDD Â DIDDORDEB YN Y DIWYDIANT ADEILADU... |
|---|---|---|
| **Dangos i bobl ifanc pa gyfleoedd sydd ar gael a helpu cyflogwyr i ddenu talent amrywiol drwy genhadon Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg**<br><br>**Ei gwneud yn haws i ysgolion ymgysylltu â'r diwydiant er mwyn sicrhau bod gyrfa yn y diwydiant yn un ddelfrydol i bobl ifanc a'r rhai sy'n dylanwadu arnynt** | Gosod sylfeini ar gyfer dysgwyr yn y dyfodol drwy weithio gydag ysgolion a cholegau i wella ansawdd y broses recriwtio prentisiaid | ✓ Am ddysgu rhagor<br><br>✓ Yn wybodus |
| **Parhau i gyhoeddi gwybodaeth berthnasol am sut i ddatblygu gyrfa yn y diwydiant ar Am Adeiladu** | Sicrhau bod gwybodaeth fwy cyson o ansawdd gwell am yrfaoedd yn cael ei rhoi mewn ysgolion | ✓ Wedi'u hysbrydoli<br><br>✓ Yn gwybod ble i fynd nesaf |
| **Gweithio gyda chyflogwyr i roi 4,000 o brofiadau blasu er mwyn cysylltu pobl â'r diwydiant** | Sicrhau bod gwybodaeth am yr holl brofiadau blasu sy'n cael eu rhoi ledled Prydain ar gael ar-lein, yn hygyrch ac wedi'i chysylltu ag Am Adeiladu | ✓ Yn cael profiad gwaith |
| **Helpu mwy o bobl i sicrhau swydd barhaol drwy Hybiau Profiad o Weithio ar Safle Adeiladu, hyfforddeiaethau a'r Cynllun Cadw Talent** | Gwella llwybrau i'r diwydiant ar gyfer graddedigion drwy weithio gyda'r sector addysg uwch<br><br>Cynyddu nifer y myfyrwyr coleg sy'n dechrau prentisiaeth neu sy'n sicrhau swydd drwy ddod o hyd i lwybrau newydd a sicrhau eu bod yn effeithiol | ✓ Yn gallu dilyn llwybr clir i'r diwydiant |

# **Hyfforddi a Datblygu:** Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael

Hyfforddiant yw'r gweithgaredd mwyaf y mae CITB yn ei gefnogi.

Mae cyflogwyr yn dweud wrthym mai hyfforddiant hygyrch o ansawdd uchel yw eu prif flaenoriaeth. Felly, mae'n iawn bod y rhan fwyaf o'r Lefi'n cael ei fuddsoddi mewn hyfforddiant.

Mae iechyd a diogelwch bob amser wedi bod wrth wraidd ein cynnig hyfforddiant. Bydd y Cynllun Grantiau'n parhau i gefnogi hyfforddiant i gadw pobl yn ddiogel.

Drwy ein prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, y gwnaeth mwy na **500,000 o weithwyr** o'r sector adeiladwaith ei sefyll yn ystod 2019-20 ei sefyll yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ochr yn ochr â'r 170,000 o weithwyr a gymerodd un o gyrsiau Site Safety Plus, y mae gweithwyr yn dysgu sut i aros yn ddiogel ar y safle adeiladu fwyaf ac, o ganlyniad i bandemig COVID-19, rydym wedi cyflymu'r broses o'i gwneud yn bosibl dysgu ar-lein. Mae'r hyfforddiant sydd ar gael ar-lein yn cynnwys e-gwrs newydd i reolwyr a goruchwylwyr sy'n ymwneud â sicrhau safle adeiladu diogel yn ystod y pandemig, sydd ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae'n rhaid i ni fuddsoddi'r Lefi yn y pethau a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac, o gofio hyn, mae pedwar nod i'n gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth Hyfforddi a Datblygu:

- Gwella **ansawdd hyfforddiant** a sicrhau ei fod ar gael yn haws
- Gwella cyfraddau **cwblhau prentisiaeth**
- Diogelu a datblygu'r **sgiliau sydd eu hangen** fwyaf
- Helpu **myfyrwyr coleg talentog** i sicrhau swydd yn y diwydiant adeiladu

## Hyfforddiant o ansawdd uchel sydd ar gael yn hawdd

Problem yn y diwydiant ers tro yw sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd wedi'i gydnabod a helpu gweithwyr i osgoi gorfod ail-wneud hyfforddiant bob tro y maent yn dechrau gweithio i gyflogwr newydd.

Mae'r Cynllun Grantiau, ynghyd â'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu a'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu, yn rhan fawr o'r ateb.

Gall cyflogwyr ddefnyddio'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu i ddod o hyd i gyrsiau hyfforddi lleol y gellir sicrhau eu bod o'r ansawdd cywir. Pan fydd yr hyfforddiant wedi'i wneud, mae grant yn cael ei dalu'n awtomatig, sy'n arbed gwaith gweinyddol. Mae'r cyflawniad yn cael ei gyhoeddi ar y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu er mwyn i bob cyflogwr allu gweld pa gymwysterau sydd gan weithwyr.

Yn 2019-20, yn dilyn hyfforddiant a wnaed gan 700,000 o bobl, cafodd **1.9 miliwn o gyflawniadau** eu cofnodi ar y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu. Y flwyddyn hon, byddwn yn parhau i wella gwasanaeth yr adnodd hwn a'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu ar sail eich adborth i sicrhau y gallwch eu defnyddio'n gyflymach ac yn haws.

Mae Grwpiau Hyfforddiant yn dal i fod wrth wraidd ein cynnig hyfforddiant, a byddwn yn parhau i fuddsoddi ynddynt a datblygu eu potensial. Hefyd, fel rhan o'n gwaith o adolygu'r Cynllun Grantiau, byddwn yn ceisio treialu ffyrdd eraill o gefnogi'r safonau hyfforddiant mwyaf cyffredin.

## Cynyddu nifer y bobl sy'n gwneud ac yn cwblhau prentisiaeth

Mae diogelu prentisiaethau wrth wraidd sicrhau bod gan y diwydiant y sgiliau sydd eu hangen arno. Mae helpu pobl ifanc i ddatblygu gyrfa yn y diwydiant rydym yn ei garu mor bwysig i bob un ohonom.

Gwnaeth dros **15,000 o bobl** gwblhau eu prentisiaeth yn 2020-21, ac rydym yn diogelu prentisiaethau mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, rydym yn helpu prentisiaid, cyflogwyr a cholegau i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Yn ail, rydym yn cynnal cyfraddau grantiau prentisiaethau er mwyn diogelu faint o brentisiaid sy'n cael eu recriwtio. Byddwn hefyd yn parhau i dalu costau teithio a chynhaliaeth prentisiaid pan fyddant yn ei chael hi'n anodd teithio i'r coleg neu fannau hyfforddi eraill.

Yn drydydd, rydym yn sicrhau bod prentisiaid sydd wedi gadael swydd, am ba reswm bynnag, yn cael eu hannog i aros yn y diwydiant. Yn 2020, gwnaeth **10,976 allan o 11,000 o'n prentisiaid** gadw eu swydd yn lle cael eu diswyddo oherwydd y pandemig.

Rydym yn dal i fuddsoddi yn y Cynllun Rhannu Prentisiaeth, sy'n helpu cyflogwyr llai i rannu gwerth prentis.



# **Hyfforddi a Datblygu:** Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael

## Y 10 prif sgìl blaenoriaethol

Nododd ein Cynllun Strategol ar gyfer 2021-25 ein bwriad i fuddsoddi mewn hyfforddiant a fydd yn datblygu'r sgiliau mwyaf pwysig.

Ar hyn o bryd, rydym yn trafod y rhain gyda chyflogwyr ac, ar ôl hynny, byddwn yn nodi'r rhai y byddwn yn rhoi sylw iddynt gyntaf. Byddai sylw'n cael ei roi i rai o'r 10 prif sgìl drwy roi cymorth cyllid ychwanegol, gan gynnwys rhoi cyllid drwy'r Cynllun Grantiau. Ar yr un pryd, bydd y cyllid sydd ar gael fel arfer drwy'r Cynllun Grantiau'n cael ei gadw ar yr un lefel.

Mae'r rhestr yn cynnwys sgiliau megis gosod brics a sgaffaldio, am fod disgwyl i'r galw am y sgiliau hyn gynyddu wrth i fwy o gartrefi gael eu hadeiladu.

Bydd y duedd tuag at weithgynhyrchu oddi ar y safle adeiladu'n parhau, ac mae'n faes cyffrous sy'n datblygu. Bydd angen helpu gweithwyr a goruchwylwyr i ymaddasu i weithio oddi ar y safle adeiladu.

Wrth i bob un ohonom barhau i ddysgu o drasiedi Tŵr Grenfell, gall buddsoddi'r Lefi mewn hyfforddiant ar osod cladin sgrin law helpu i wella diogelwch yn amlwg.

Yn olaf, mae angen ffocws go iawn i gyrraedd targed cyfreithiol rwymol y Llywodraeth i sicrhau bod y DU yn wlad sero-net erbyn 2050. Byddwn yn buddsoddi'r Lefi mewn hyfforddiant ar ôl-osod er mwyn sicrhau bod cartrefi a gweithleoedd Prydain yn effeithlon o ran ynni. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant arwain a rheoli er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn deall y gwaith hwn.

Mae'r rhestr hon o'r sgiliau blaenoriaethol (yn nhrefn yr wyddor) wedi'i llunio drwy ddefnyddio ein sail dystiolaeth a'i chadarnhau gan gynrychiolwyr y diwydiant:

- Cefnogi gwaith adeiladu oddi ar y safle adeiladu
- Goruchwylio, rheoli ac arwain
- Gosod brics
- Gosod cladin (sgrin law)
- Gweithio ar safle adeiladu'n gyffredinol
- Gweithio'r tir
- Gweithredu peiriannau
- Ôl-osod i sicrhau bod adeiladau'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon
- Sgaffaldio
- Sgiliau digidol

## Dod â mwy o fyfyrwyr coleg i mewn i'r diwydiant

Dim ond pedwar ym mhob deg o fyfyrwyr coleg sy'n gwneud cyrsiau sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu sy'n sicrhau swydd neu brentisiaeth ar unwaith yn y diwydiant.

Os ydym am osgoi bylchau mewn sgiliau yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni ei gwneud yn haws i fyfyrwyr ymuno â'r diwydiant a'i gwneud yn haws i gyflogwyr sicrhau'r hyn sydd ei angen arnynt.

Rhan o'r ateb yn Lloegr fydd yr **hyfforddeiaeth gyntaf sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu** – bydd hyfforddeion yn dysgu sgiliau mathemateg a Saesneg hanfodol, yn ogystal â sgiliau galwedigaethol, ac yn ymgymryd â lleoliad gwaith yn y diwydiant sy'n para deg wythnos. Bydd hyn yn helpu'r hyfforddeion hynny i sicrhau swydd neu brentisiaeth garlam sy'n cydnabod eu dysgu yn y coleg. Bydd yr hyfforddeiaeth, a ddatblygwyd drwy gydweithio â'r Llywodraeth, colegau, Cyngor Arwain y Diwydiant Adeiladu a gwahanol gyrff, yn cael ei lansio eleni.

Rydym yn mynd i'r afael â'r un broblem yn yr Alban drwy'r rhaglen '**Llwybrau i Brentisiaethau**.' Mae'n ceisio 'noddi' myfyrwyr colegau addysg bellach ledled yr Alban i'w helpu i sicrhau prentisiaeth. Bydd taliad hyfforddi'n cael ei wneud i fyfyrwyr am hyd at 26 wythnos, a'r targed yw helpu 120 o fyfyrwyr i sicrhau prentisiaeth drwy'r llwybrau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am hyn, darllenwch ein hadroddiad 'Learning to Earning'.

## Sgiliau arbenigol

Mae amrywiaeth eang o swyddi ar gael yn y diwydiant, ond mae angen ar lawer o gyflogwyr sgiliau penodol nad ydynt yn gysylltiedig o gwbl â chrefftau cyffredin cydnabyddedig.

Efallai nad oes galw mawr am gyrsiau hyfforddi sy'n datblygu sgiliau ym maes peirianneg dargludo mellt, er enghraifft, ond mae cyrsiau hyfforddi o'r fath yn bwysig iawn i rai cyflogwyr ac, am fod anghenion yn newid yn gyson, gallai'r nifer ohonynt gynyddu gydag amser.

Pan na fydd modd gwneud prentisiaeth ffurfiol, byddwn yn ystyried sicrhau bod rhaglenni hyfforddi o ansawdd ar gael, gan gynnwys Rhaglenni Sgiliau Cymhwysol Arbenigol.

## Astudiaeth achos: Helpu mwy o fyfyrwyr addysg bellach i sicrhau swydd neu brentisiaeth

**Beth?**
Datblygu set o hyfforddeiaethau sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu

**Sut?**
- Gweithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid
- Treialu hyfforddeiaeth gosod brics gychwynnol y flwyddyn academaidd hon
- Cyflwyno set ehangach o hyfforddeiaethau ar ôl hynny

**Effaith**
- Myfyrwyr addysg bellach yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau swydd neu brentisiaeth

"Bydd derbyn hyfforddai'n rhoi'r cyfle i'n busnes asesu a chydnabod talent ifanc y gallwn ei chadw ar ddiwedd yr hyfforddeiaeth."

**Lee Marley, Rheolwr Gyfarwyddwr**
**Lee Marley Brickwork Ltd, De-ddwyrain Lloegr**

# **Hyfforddi a Datblygu:** Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael

| MAES | TARGED 2025 | TARGED 2021-22 |
|---|---|---|
| **Dangosydd perfformiad allweddol cyffredinol** | 85% o gyflogwyr yn dweud bod yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt ar gael<br><br>80% o gyflogwyr yn dweud bod yr hyfforddiant sydd ar gael iddynt o ansawdd digon uchel<br><br>Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ein bod eisoes yn agos at gyrraedd y targed ar gyfer yr hyfforddiant sydd ar gael a'n bod wedi rhagori ar y targed ar gyfer ansawdd yr hyfforddiant. Byddwn yn ailosod targedau 2025 yn yr hydref ar ôl i ni ymgynhori â Chynghorau'r Gwledydd er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn. | 85% (yr hyfforddiant sydd ar gael)<br><br>83% (ansawdd yr hyfforddiant) |
| **Gwella cyfraddau cwblhau prentisiaeth** | Cyfradd cyflawni genedlaethol o 70% ledled Prydain (mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad o 64% yn 2018-19 cyn y pandemig i 60% (canran amcangyfrifedig) yn 2020-21 yn ystod y pandemig) | 67% |
| **Diogelu a datblygu sgiliau'r gweithlu presennol sydd eu hangen fwyaf** | Cau bylchau'n gyson yn y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi lle mae'r bylchau mwyaf mewn sgiliau a nodi hyd at ddeg swydd lle mae bwlch mewn sgiliau bob blwyddyn<br><br>Pennu targed a mesur nifer y cyfleoedd rydym wedi'u cefnogi neu eu hwyluso i wneud hyfforddiant drwy ein hymyriadau | |
| **Datblygu llwybrau newydd ar gyfer myfyrwyr addysg bellach** | Cefnogi 8,000 o fyfyrwyr yn Lloegr dros y pedair blynedd nesaf drwy lwybrau newydd, gan arwain at 1,600 o brentisiaid ychwanegol | Cymru: 500 o bobl yn gwneud prentisiaeth ar ôl addysg bellach<br><br>Lloegr: 300 o hyfforddeion<br><br>Yr Alban: 120 o bobl ar y rhaglen 'Llwybrau i Brentisiaethau' |



# **Hyfforddi a Datblygu:** Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael

| NODAU AR GYFER Y FLWYDDYN HON | EIN GWAITH I GYFLAWNI NODAU STRATEGOL AR GYFER 2021-25 | GWEITHIO GYDA CHYFLOGWYR A PHARTNERIAID I WNEUD Y CANLYNOL ... |
|---|---|---|
| **Datblygu llwybrau newydd a mwy effeithiol i sicrhau swydd neu brentisiaeth ar ôl bod yn y coleg drwy gymharu modelau gwahanol ledled Prydain** | Ehangu'r llwybrau mwyaf effeithiol i sicrhau swydd ar ôl bod yn y coleg a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer grwpiau blwyddyn yn y dyfodol | Helpu mwy o fyfyrwyr talentog i sicrhau swydd |
| **Cefnogi prentisiaid drwy'r Cynllun Rhannu Prentisiaeth, y Cynllun Cadw Talent, hyfforddeiaethau a'r cynllun 'Kickstart'** | Diogelu cyllid ar gyfer prentisiaethau, yn enwedig y rhai sy'n cael eu gwneud mewn busnesau llai, a chyllid ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth i wneud hyfforddiant mewn ardaloedd anghysbell<br><br>Gwella cyfraddau cwblhau prentisiaeth drwy recriwtio'n well a recriwtio amrywiaeth o bobl | Diogelu prentisiaethau |
| **Dechrau mynd i'r afael â'r 10 prif sgìl blaenoriaethol drwy dargedu'r defnydd o'r Cynllun Grantiau a chyllid**<br><br>**Diogelu darpariaeth arbenigol drwy roi cymorth cyllid** | Datgloi manteision sgiliau digidol gwell drwy ddefnyddio canlyniadau ein comisiwn ar y pwnc<br><br>Cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau, megis sgiliau ôl-osod i sicrhau bod adeiladau'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, i gyrraedd y targed sero-net | Targedu bylchau yn y ddarpariaeth hyfforddiant |
| **Cynyddu faint o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu o bell** | Datblygu sgiliau craidd yn effeithlon ledled Prydain, gan gynnwys drwy Grwpiau Hyfforddiant<br><br>Cynyddu faint o hyfforddiant e-ddysgu sydd ar gael am ddim | Moderneiddio sut mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu |

# **Safonau a Chymwysterau:** Gosod safonau i wella hyder a gwneud hyfforddiant yn fwy trosglwyddadwy

Mae safonau a chymwysterau wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud.

Mae'n rhaid iddynt adlewyrchu anghenion cyflogwyr a realiti bywyd ar y safle adeiladu. Mae'n rhaid i'r cymwysterau a'r hyfforddiant cywir fod ar gael er mwyn i'r diwydiant adeiladu allu tyfu a bod yn fwy cynhyrchiol.

O ganlyniad, dylai cyflogwyr fod yn hyderus y gall eu gweithlu ddiwallu eu hanghenion nawr ac yn y dyfodol. Dylai hefyd olygu bod llwybrau clir ar gael i wahanol swyddi er mwyn annog pobl dalentog i ymuno â'r diwydiant a datblygu gyrfa ynddo.

Y flwyddyn hon, byddwn yn datblygu tri maes:

- Gwella sut mae **rheolwyr ac arweinwyr** yn deall anghenion eu busnes am hyfforddiant
- Diweddaru safonau i gynnwys ymddygiad a **sgiliau digidol er mwyn gwella cynhyrchiant** a gwneud sgiliau'n fwy trosglwyddadwy
- Gwella **dealltwriaeth cyflogwyr o gymhwysedd** er mwyn newid yn hwylus i system gymhwysedd gadarn

## Cymhwysedd

Beth mae'n ei olygu i fod yn gymwys? Yr ateb byr yw ei fod yn ymwneud â chynnal y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen i wneud gwaith da.

Mae'r ateb hirach yn fwy cymhleth. Gall newid gydag amser a golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae'n golygu mwy nag ennill cymhwyster. Mae'n golygu deall yr heriau newydd y mae cyflogwyr yn eu hwynebu a sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu'r rhinweddau cywir i fynd i'r afael â nhw.

## Felly, pam mae cymhwysedd yn bwysig?

Enghraifft ddiweddar bwysig yw trasiedi Tŵr Grenfell ac adolygiad Hackitt wedi hynny. Dangosodd y rhain bwysigrwydd cymhwysedd a'r hyn a all ddigwydd pan fydd pethau'n mynd o chwith. Mae cymhwysedd yn hollbwysig i gadw pobl yn ddiogel a bod yn gynhyrchiol.

Ein rôl yw gweithio gyda chyflogwyr er mwyn deall sut mae diffinio cymhwysedd ar gyfer gwahanol swyddi. Ar ôl i ni wneud hynny, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i osod safonau sy'n sylfaen i gymwysterau a chyrsiau hyfforddi. Y flwyddyn hon, byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a grwpiau eraill i sefydlu **fframwaith cymhwysedd cyffredin**. Bydd y fframwaith hwn yn nodi pa weithgareddau y bydd angen eu gwneud fel rhan o'r swydd, pa sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad y mae'n rhaid eu dangos er mwyn eu gwneud a sut mae pobl yn cael eu hasesu. Pan fydd y gwaith hwnnw wedi'i wneud, gall gwahanol ddiwydiannau ddefnyddio'r fframwaith i lunio'u fframwaith eu hunain.

Mae sgiliau digidol yn dod yn bwysicach. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i gytuno ar ddiffiniad o gymhwysedd digidol a sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban yn rhoi sylw i hyn lle bo'n bosibl. Bydd hyn yn ysgogi'r diwydiant i weithio'n well yn ddigidol.

## Arwain a rheoli

Ar gyfer pobl brysur sy'n arwain busnes bach, gall fod yn anodd dod o hyd i'r amser i weithio allan pa hyfforddiant sydd ei angen a phryd i'w wneud.

Er mwyn gwneud pethau'n haws, rydym yn cynnig **adnodd Dadansoddi Anghenion am Hyfforddiant** y gall pob cyflogwr ei ddefnyddio.

Mae ein **Cronfeydd Sgiliau a Hyfforddiant** hefyd yn cynnig hyd at £10,000 o gyllid i fusnesau bach a hyd at £25,000 o gyllid i fusnesau canolig, a all eu helpu i roi hyfforddiant arwain a rheoli. Dylai hyn helpu llawer mwy o fusnesau i fynd ati'n fwy effeithiol i weithio allan pa hyfforddiant fydd yn eu gosod ar y blaen i ennill y contract nesaf.

Ar gyfer busnesau mwy, mae ein Cronfa Datblygu Arweinwyr a Rheolwyr wedi cefnogi 36 o brosiectau a fydd yn mynd rhagddynt yn ystod 2021. Nid yn unig y bydd cyflogwyr yn elwa o'r prosiectau hynny, bydd y canlyniadau'n ein helpu ninnau i ddeall pa fathau o hyfforddiant a datblygiad y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi o ddifrif. Bydd hyn ein galluogi i osod safon glir a throsglwyddadwy ar gyfer arwain a rheoli ar draws y diwydiant.

## Astudiaeth achos: Arweinyddiaeth ddigidol

**Beth?**

Canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen i lywio a defnyddio technolegau modern drwy ddatblygu ac uwchsgilio arweinwyr

**Sut?**

- Cyrsiau hyfforddi agored
- Cymorth a hyfforddiant yn fewnol
- Seminarau
- Gweminarau
- Cyrsiau ar-lein a deunyddiau hyfforddi eraill

**Effaith**

- Mwy o ymwybyddiaeth o atebion digidol a'u manteision
- Y sgiliau a'r meddylfryd i weithio mewn ffyrdd newydd
- Tua 2,200 o arweinwyr â sgiliau newid digidol

"Rydym wedi bod yn gweithio gyda busnesau bach a chanolig sydd wedi gweld gwerth cymorth i drawsnewid yn ddigidol. Mae wedi'u galluogi i benderfynu ble i ddechrau ar eu taith i drawsnewid yn ddigidol."

**Saffron Grant, Rheolwr Gyfarwyddwr Digital Construction Skills, Gogledd Lloegr a'r Alban**

# **Safonau a Chymwysterau:** Gosod safonau i wella hyder a gwneud hyfforddiant yn fwy trosglwyddadwy

## Diweddaru safonau

Rydym am i hyfforddiant sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu gael ei gefnogi gan safonau i sicrhau ei fod o'r ansawdd cywir.

Bydd gwaith sylweddol yn cael ei wneud ym mhob gwlad yn 2021, sef:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys cymwysterau Prentisiaeth, cymhwyster TGAU a chymhwyster Safon Uwch cysylltiedig, a gwaith ar fframweithiau prentisiaethau diwygiedig
- Gweithio gyda chyflogwyr a Skills Development Scotland i ddatblygu safonau newydd ar gyfer prentisiaethau modern sy'n canolbwyntio ar swyddi penodol a datblygu sgiliau, megis sgiliau digidol, yn ehangach
- Helpu i adolygu safonau prentisiaethau yn Lloegr er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r prif sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau mawr megis diogelwch adeiladau, y targed sero-net a'r gwelliannau y mae cyflogwyr am eu gweld megis datblygu sgiliau digidol

Mae ein gwaith hefyd yn ystyried helpu gweithwyr i ddatblygu sgiliau newydd a gwahanol er mwyn iddynt allu ffynnu. Am y rheswm hwn, rydym yn ystyried cyflwyno cymwysterau a chyrsiau byrrach sy'n rhoi'r cyfle i bobl ddatblygu sgiliau penodol i'w helpu nhw eu hunain yn ogystal â'u cyflogwyr.

Byddwn yn treialu hyn ar gyfer y 10 prif sgìl blaenoriaethol (gweler tudalen 10) ac yn datblygu 'llwybrau i gymhwysedd'. Pan fydd y llwybrau i hyfforddi a dod yn gymwys yn glir, byddwn yn rhannu'r wybodaeth honno ar Am Adeiladu er mwyn sicrhau y gall unrhyw un sydd â diddordeb yn y llwybrau hynny weld sut i'w dilyn.

| MAES | TARGED 2025 | TARGED 2021-22 |
|---|---|---|
| **Dangosydd perfformiad allweddol cyffredinol** | Diffinio cymhwysedd – dangos y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sydd eu hangen yn gyson i wneud tasgau penodol er mwyn cyrraedd safon y mae'r diwydiant wedi cytuno arni<br><br>Cynyddu canran y cyflogwyr sy'n hyderus bod eu gweithlu'n gymwys i ddiwallu anghenion y busnes | Ar sail ein hymchwil ddiweddaraf, sicrhau bod 89% o gyflogwyr yn hyderus bod eu gweithlu'n gymwys i ddiwallu anghenion y busnes – byddwn yn gosod targed 2025 ar ôl ymgynghori â Chynghorau'r Gwledydd yn yr hydref, ac rydym yn bwriadu cynnwys ail darged ar gyfer sut mae cyflogwyr yn sicrhau cymhwysedd |
| **Gwella dealltwriaeth arweinwyr o anghenion am hyfforddiant** | Sicrhau bod gan gyflogwyr yr adnoddau i nodi eu hanghenion am sgiliau a hyfforddiant ac y gallant gael cymorth cyllid priodol gennym | Sicrhau bod adnoddau ar gael am ddim, megis adnoddau dadansoddi anghenion y busnes a dadansoddi anghenion am hyfforddiant, er mwyn gwella effaith prosiectau sy'n cael eu cyllido gennym a galluogi busnesau i ragweld eu hanghenion yn well |
| **Diweddaru safonau i adlewyrchu ymddygiad a sgiliau digidol** | Diweddaru safonau i adlewyrchu'r ymddygiad a'r sgiliau digidol sydd eu hangen | Sicrhau bod pob cwrs sy'n cael ei gyllido drwy'r Cynllun Grantiau'n cael ei gefnogi gan safon er mwyn sicrhau bod dysgu'n drosglwyddadwy ac o ansawdd uchel, gyda ffocws ar y canlynol y flwyddyn hon:<br><br>Cymru, Lloegr a'r Alban: Adolygu pum cyfres o safonau galwedigaethol ac adolygu 200 o safonau hyfforddiant<br><br>Yr Alban: Adolygu dau fframwaith prentisiaeth fodern |
| **Newid i gymhwysedd parhaus a datblygiad parhaus** | Datblygu dealltwriaeth y diwydiant o gymhwysedd a gofynion ar gyfer swyddi penodol, a fydd yn sicrhau bod gweithwyr bob amser yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel<br><br>Cyflwyno fframweithiau cymhwysedd newydd ar gyfer swyddi blaenoriaethol erbyn 2022, a gwneud hynny ar gyfer y swyddi sy'n weddill erbyn 2024 | Datblygu deg fframwaith cymhwysedd sy'n mapio 'llwybrau i gymhwysedd' ar gyfer swyddi penodol |

## Astudiaeth achos: Fframweithiau prentisiaethau yn yr Alban

**Beth?**
Sicrhau bod cronfa o weithwyr cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n llawn ar gael i gyflogwyr

**Sut?**
- Addasu dulliau asesu
- Cyflwyno'r rhaglen 'Llwybrau i Brentisiaethau'
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau'n addas at y diben nawr ac yn y dyfodol

**Effaith**
- Tua 71% o brentisiaethau wedi'u dechrau yn 2020
- Gwahanol gymwysterau wedi'u diweddaru yn yr Alban yn dilyn cydweithio â chyrff dyfarnu
- Llwybrau dysgu wedi'u hehangu

"Bydd 'Llwybrau i Brentisiaethau' yn gwella rhagolygon pobl ifanc yr Alban o sicrhau swydd yn y dyfodol a gwneud iawn am y nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n ddi-waith oherwydd effaith pandemig COVID-19 ar yr economi."

**Frank Mitchell, Cadeirydd, Skills Development Scotland**


# **Safonau a Chymwysterau:** Gosod safonau i wella hyder a gwneud hyfforddiant yn fwy trosglwyddadwy

| NODAU AR GYFER Y FLWYDDYN HON | EIN GWAITH I GYFLAWNI NODAU STRATEGOL AR GYFER 2021-25 | GWEITHIO GYDA CHYFLOGWYR A PHARTNERIAID I WNEUD Y CANLYNOL ... |
|---|---|---|
| **Helpu busnesau bach a chanolig i nodi eu hanghenion am sgiliau** | Rhoi adnoddau i fusnesau am ddim er mwyn iddynt ddadansoddi eu hanghenion am sgiliau a hyfforddiant<br><br>Penderfynu sut i gefnogi hyfforddiant a chymwysterau arwain a rheoli | Helpu arweinwyr a rheolwyr i nodi eu hanghenion am sgiliau a'r hyfforddiant cywir i'w diwallu |
| **Rhannu tystiolaeth a gwybodaeth glir am flaenoriaethau ac anghenion am sgiliau yn y dyfodol** | Sicrhau bod safonau ar gael i gefnogi technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio<br><br>Parhau i ddefnyddio'r Cynllun Grantiau i gyllido hyfforddiant sy'n cael ei gefnogi gan safonau cymeradwy | Gosod safonau cymhwysedd |
| **Cytuno ar fframwaith cyffredin i fesur cymhwysedd ar gyfer y prif swyddi lle mae diogelwch yn hollbwysig, megis gosodwyr, yn ogystal â sgiliau digidol**<br><br>**Rhoi arweiniad ynghylch sut i ddatblygu'r 10 prif sgìl blaenoriaethol** | Gweithio gyda chyflogwyr, partneriaid a llywodraethau cenedlaethol i sicrhau bod prentisiaethau'n addas at y diben<br><br>Cytuno ar ffordd o ddatblygu a chynnal cymhwysedd yn y gweithlu | Dylanwadu ar bolisi sgiliau<br><br>Mapio llwybrau datblygu clir |

# Rhestr o brosiectau sy'n cael eu cyllido

**GYRFAOEDD:** Helpu pobl dalentog i ymuno â'r diwydiant adeiladu a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo

| PROSIECT/RHAGLEN | BETH YDYW/BETH RYDYM YN EI WNEUD | BETH MAE'N EI OLYGU I CHI | FAINT O'R LEFI FYDD YN CAEL EI FUDDSODDI |
|---|---|---|---|
| Am Adeiladu | Dyma'r wefan i gael gwybodaeth am yrfaoedd yn y diwydiant. Mae hefyd yn rhwydwaith cymdeithasol sy'n tyfu o gynrychiolwyr y diwydiant sy'n ymgysylltu â phobl sydd am gael gwybodaeth o'r fath. | Mae'n dod â'r diwydiant yn fyw drwy roi gwybodaeth addysgol ac ysbrydoledig ac yn annog mwy o bobl i ymuno â'r diwydiant. | £600k |
| Talentview | Dyma hwb talent 'siop un stop' ar gyfer denu pobl i'r diwydiant adeiladu. Mae'n ei gwneud yn hawdd i bobl ymuno â'r diwydiant ac yn galluogi'r diwydiant i dynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael ynddo. | Mae'n helpu unrhyw un sydd am gael profiad, sy'n chwilio am yrfa newydd neu sydd am gamu ymlaen yn ei yrfa yn y diwydiant. | £220k |
| Cyfleoedd i wneud profiad gwaith | Mewn diwydiant sy'n ffafrio recriwtio'n anffurfiol, bydd y prosiect hwn yn gwneud cyfleoedd i wneud profiad gwaith yn haws eu gweld ac yn rhoi'r cyfle i bobl gael rhagor o wybodaeth am yrfaoedd yn y diwydiant. | Bydd yn sicrhau bod y cyfleoedd sydd eu hangen i ddod yn rhan o'ch gweithlu, yn ogystal â mwy o swyddi, ar gael i bobl sydd â diddordeb yn y diwydiant ar adeg pan fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd na diwydiannau eraill. | £400k |
| Hybiau Profiad o Weithio ar Safle Adeiladu | Mae'r hybiau'n rhoi hyfforddiant cyn-gyflogaeth hollbwysig i bobl sy'n eu helpu i ymbaratoi ar gyfer gwaith ar y safle adeiladu. Maent yn cysylltu cyflogwyr â phobl sydd am ddilyn gyrfa yn y diwydiant. | Byddant yn sicrhau mwy na 2,490 o weithwyr sy'n barod ar gyfer y safle adeiladu i helpu i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau a llenwi'r swyddi gwag sydd gennych. | £3.2m |
| Iechyd meddwl | Rydym yn gweithio gyda The Lighthouse Club i hyfforddi swyddogion a hyfforddwyr cymorth cyntaf iechyd meddwl ac yn gweithio mewn partneriaeth a'r Samariaid i helpu i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl ar gael i fusnesau bach a chanolig. | Bydd cyngor a chanllawiau ar iechyd meddwl ar gael yn haws o fewn y diwydiant er mwyn eich cefnogi chi a'ch gweithlu, a bydd mwy o bobl yn ymwybodol bod y rhain ar gael. | £250k |
| Tegwch, Cynhwysiant a Pharch | Rydym yn newid diwylliant y diwydiant drwy wella gwybodaeth am degwch, cynhwysiant a pharch, cynyddu nifer y cenhadon Tegwch, Cynhwysiant a Pharch mewn busnesau, datblygu adnoddau hyfforddiant a rheoli gweithdai. | Drwy eich helpu i wella diwylliant eich gweithle, bydd mwy o bobl yn cael eu denu i'r diwydiant a'u cadw ynddo. Bydd 5,000 o weithwyr o 2,000 o wahanol fusnesau'n cael hyfforddiant ar degwch, cynhwysiant a pharch. | £250k |
| CYFANSWM AR GYFER GYRFAOEDD | | | £4.9m |



# Rhestr o brosiectau sy'n cael eu cyllido

**HYFFORDDI A DATBLYGU:** Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd ar gael i ddatblygu sgiliau craidd a sgiliau ar gyfer y dyfodol

| PROSIECT/RHAGLEN | BETH YDYW/BETH RYDYM YN EI WNEUD | BETH MAE'N EI OLYGU I CHI | FAINT O'R LEFI FYDD YN CAEL EI FUDDSODDI |
|---|---|---|---|
| Teithio a chynhaliaeth ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban | Rydym yn sicrhau bod pobl sy'n gwneud prentisiaeth ac yn teithio ymhellach er mwyn hyfforddi'n cwblhau eu prentisiaeth ac yn cael eu cadw. | Bydd yn ehangu'r gronfa o brentisiaid sydd ar gael i'ch busnes ac yn rhoi'r cymorth ychwanegol sydd ei angen arnoch. | £3.5m |
| Y Cynllun Rhannu Prentisiaeth | Mae'n galluogi pobl i gwblhau eu prentisiaeth drwy weithio i un neu fwy o gyflogwyr pan na allai gwneud hyfforddiant hirdymor fod yn bosibl fel arall. | Mae hyblygrwydd gennych wrth gynnig prentisiaeth, a fydd yn helpu pobl i ymuno â'r diwydiant. | £1m |
| Dysgu trochol | Rydym yn ariannu prosiectau i brofi sut y gall dysgu trochol, drwy ddefnyddio realiti rhithwir neu realiti estynedig, helpu pobl i hyfforddi a datblygu yn y diwydiant. | Bydd llyfrgell o gynnwys dysgu trochol ar gael am ddim i helpu i sicrhau bod y diwydiant yn apelio at genhedlaeth ddigidol, yn ogystal â rhaglen hyfforddi'r hyfforddwr i wella gallu'r diwydiant i ddefnyddio technolegau dysgu trochol. | £750k |
| Cladin sgrin law | Rydym yn ymateb i drasiedi Tŵr Grenfell drwy ddatblygu proses newydd ar gyfer hyfforddi ac asesu cymhwysedd gweithwyr a goruchwylwyr sydd wedi'i hachredu gan RoofCERT. | Bydd mwy o osodwyr hyfforddedig yn y sector toi'n gweithio'n unol â safon ddiogel y cytunwyd arni. | £1.2m |
| Cyllid ar gyfer sgiliau arbenigol a sgiliau sy'n dod i'r amlwg | Rydym yn defnyddio cyllid i lenwi bylchau mewn sgiliau arbenigol lle mae galw amdanynt. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau ac yn gwneud yr hyfforddiant yn gynaliadwy. | Bydd yn diogelu hyfforddiant arbenigol i sicrhau ei fod yn parhau i fod ar gael i chi. Bydd cyllid yn cefnogi'r sgiliau sydd eu hangen fwyaf. | £1m |
| Dod â myfyrwyr addysg bellach i mewn i'r diwydiant adeiladu (Lloegr) | Rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod ei hyfforddeiaethau'n cynnig llwybrau y gall myfyrwyr addysg bellach eu dilyn i swydd neu brentisiaeth garlam. Mae gwaith yn dechrau ar lwybr i swydd gosod brics, a bydd llwybrau i swyddi eraill yn dilyn y flwyddyn hon. | Bydd yn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dechrau prentisiaeth ar ôl bod mewn addysg bellach yn llawn amser er mwyn cau'r bwlch mewn sgiliau ac ehangu'r gronfa dalent sydd ar gael. | £500k |



# Rhestr o brosiectau sy'n cael eu cyllido

**HYFFORDDI A DATBLYGU (PARHAD):** Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd ar gael i ddatblygu sgiliau craidd a sgiliau ar gyfer y dyfodol

| PROSIECT/RHAGLEN | BETH YDYW/BETH RYDYM YN EI WNEUD | BETH MAE'N EI OLYGU I CHI | FAINT O'R LEFI FYDD YN CAEL EI FUDDSODDI |
|---|---|---|---|
| Asesiadau ar safleoedd adeiladu yn yr Alban ar gyfer prentisiaethau | Rydym yn helpu i hyfforddi mwy o aseswyr i ateb y galw ar ôl i newidiadau i'r rheolau ar asesu cymwysterau galwedigaethol yr Alban arwain at ddiffyg aseswyr ar safleoedd adeiladu. | Bydd yn ehangu capasiti'r rhwydwaith o aseswyr er mwyn sicrhau y gall asesiadau gael eu gwneud ac y gall prentisiaethau gael eu cwblhau. | £300k |
| Taliadau ar gyfer cyrsiau arbenigol - Rhaglenni Sgiliau Cymhwysol Arbenigol a Galluogi Darpariaeth Arbenigol | Maent yn helpu gweithwyr newydd mewn swyddi arbenigol pan nad oes safonau prentisiaethau ar gael. | Mae'n cadw sgiliau arbenigol yn fyw drwy hyfforddi mwy o weithwyr cymwys mewn swyddi arbenigol. | £1m |
| Comisiwn Adeiladu oddi ar y Safle Adeiladu | Dyma ddau brosiect i ddatblygu adnoddau hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer darparwyr hyfforddiant er mwyn paratoi ar gyfer newidiadau wrth i dechnolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio gael eu cyflwyno. | Bydd y rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant yn fwy parod ar gyfer y cynnydd yn nifer y busnesau sy'n adeiladu oddi ar y safle adeiladu, a fydd yn golygu bod yr hyfforddiant sydd ei angen arnoch i wneud hyn ar gael i chi. | £300k |
| Y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu a'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu | Mae'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu'n gronfa ddata ar-lein y gall darparwyr hyfforddiant ei defnyddio i hysbysebu cyrsiau hyfforddi sy'n gymwys am grant, ac mae'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu'n gofnod ar-lein o gymwysterau a enillwyd a hyfforddiant a wnaed. | Mae gennych yr adnoddau i weld yr hyfforddiant sydd ar gael a sicrhau nad yw gweithwyr yn ail-wneud hyfforddiant. Gallwch hefyd weld pa gymwysterau sydd gan weithwyr posibl eisoes. | £1.5m |
| Cymorth i gyflogwyr drwy Grwpiau Hyfforddiant | Rydym yn helpu Grwpiau Hyfforddiant i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o'r gwariant ar hyfforddiant. | Bydd yn sicrhau bod hyfforddiant ar gael i fusnesau bach yn eu hardal leol. | £2.5m |
| Banc o adnoddau hyfforddiant | Dyma lwyfan digidol y gall y diwydiant ei ddefnyddio i ddod o hyd i adnoddau defnyddiol o'n buddsoddiadau blaenorol sy'n cael eu storio arno. | Mae'n ei gwneud yn haws i chi ddod wo hyd i adnoddau hyfforddi a datblygu ac yn sicrhau bod mwy o bobl yn elwa o fuddsoddiadau. | £250k |
| Prosiectau bach | Rydym yn cyllido casgliad o brosiectau bach i ddiwallu anghenion y diwydiant i hyfforddi a datblygu. | Bydd yn rhoi cymorth i ddatblygu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar weithwyr presennol a newydd. | £800k |
| **CYFANSWM AR GYFER HYFFORDDI A DATBLYGU** | | | **£14.6m** |




# Rhestr o brosiectau sy'n cael eu cyllido

**SAFONAU A CHYMWYSTERAU:** Codi safonau ar y safle adeiladu i ddiwallu anghenion cyflogwyr

| PROSIECT/RHAGLEN | BETH YDYW/BETH RYDYM YN EI WNEUD | BETH MAE'N EI OLYGU I CHI | FAINT O'R LEFI FYDD YN CAEL EI FUDDSODDI |
|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth ddigidol | Rydym yn hyfforddi uwch-reolwyr i ddod yn arweinwyr digidol a gwneud newidiadau yn y busnes ac yn darparu adnoddau hyfforddiant hefyd ar gyfer cynulleidfa ehangach. | Byddwch yn deall pam y dylech newid i fod yn fusnes â mwy o ffocws digidol a sut y gallwch wneud hyn. Bydd cymorth yn cael ei roi hefyd i'ch helpu i nodi prosesau y gellir eu symleiddio drwy ddefnyddio ateb digidol. | £500k |
| Fframwaith cymhwysedd digidol | Rydym yn datblygu fframwaith cymhwysedd digidol a fydd yn dod yn rhan o fframwaith cymhwysedd cyffredin ar gyfer y diwydiant. | Byddwch yn deall pa hyfforddiant sydd ar gael i chi a sut mae'r hyfforddiant hwnnw'n diwallu anghenion penodol am sgiliau digidol. | £150k |
| Comisiwn Gwella Arferion Caffael | Dyma bedwar prosiect sy'n cael eu cyllido i wneud arferion caffael yn fwy effeithlon. Rydym yn llunio adnoddau dysgu i gefnogi'r gwaith hwn. | Byddwch yn cydweithio'n well â'ch cadwyn gyflenwi drwy fabwysiadu arferion caffael a rheoli gwell, a fydd yn arbed amser ac arian i chi. | £1.3m |
| Llwybrau i gymhwysedd | Rydym yn adolygu ac yn diffinio llwybrau i gymhwysedd. Byddwn yn blaenoriaethu swyddi penodol (er enghraifft, swyddi lle mae diogelwch yn hollbwysig, a nodwyd mewn ymateb i drasiedi Tŵr Grenfell). | Byddant yn eich helpu i ddeall sut i sicrhau gweithlu diogel ac effeithiol. | £250k |
| Fframwaith sicrhau cymhwysedd | Bydd gwaith sicrhau ansawdd yn cynnwys cynhyrchion cymhwysedd. Bydd y gwaith hwn yn rhan o 'lwybrau i gymhwysedd' a gwybodaeth gysylltiedig sy'n cyfeirio at yrfaoedd. | Bydd yn gwella'ch hyder yn ansawdd yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu, yn ogystal â'ch ymwybyddiaeth o newidiadau y gall y Llywodraeth eu gwneud sy'n ymwneud â chymhwysedd. | £50k |
| CYFANSWM AR GYFER SAFONAU A CHYMWYSTERAU | | | £2.3m |



| | |
|---|---|
| Cyfanswm ar gyfer yr holl brosiectau sy'n cael eu cyllido | £21.8m |
| Gyrfaoedd | £4.9m |
| Hyfforddi a Datblygu | £14.6m |
| Safonau a Chymwysterau | £2.3m |




# SUT RYDYM YN BUDDSODDI'R LEFI : GOLWG 1-BLWYDDYN

## FFYNONELLAU INCWM

| | |
|---|---|
| **£148.8m** | **Y Lefi** |
| | *Yn ystod y flwyddyn ariannol – £95.6m |
| **£42.7m** | **Incwm o Gynhyrchion a Gwasanaethau** |
| £4.2m | Darparu hyfforddiant yn uniongyrchol (Colegau Adeiladu Cenedlaethol) |
| £13.2m | Prentisiaethau |
| £25.3m | Cynhyrchion |

| | |
|---|---|
| **£191.5m** | **CYFANSWM YR INCWM** |
| £17.6m | CRONFEYDD WRTH GEFN |
| **£209.1m** | **CYFANSWM Y BUDDSODDIAD YN 2021-22** |

## DYRANNU'R BUDDSODDIAD A CHOSTAU

| **£116.1m** | **RHOI CYLLID YN UNIONGYRCHOL I GYFLOGWYR** |
|---|---|
| ① £51.7m | Grantiau prentisiaethau |
| ② £13.1m | Grantiau cymhwyso |
| ③ £18.4m | Grant cwrs byr |
| ④ £8m | Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Microfusnesau a Busnesau Bach |
| ⑤ £3.5m | Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Busnesau Canolig |
| ⑥ £3m | Datblygu arweinwyr a rheolwyr |
| ⑦ £18.4m | Prosiectau sy'n cael eu cyllido *gweler manylion ar dudalennau 16 i 19 |


Cyfanswm y grantiau - £83.2m (items 1–3)

| **£23.9m** | **RHOI CYMORTH ARALL** |
|---|---|
| ⑧ £5.2m | Gwasanaethau cefnogi cyflogwyr - ymgysylltu |
| ⑨ £2.4m | Safonau, cymwysterau a gwerthuso |
| ⑩ £2.2m | Polisi ac ymchwil sgiliau a chyflogaeth |
| ⑪ £14.1m | Prentisiaethau |

| **£69.1m** | **DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU** |
|---|---|
| ⑫ £17.5m | Darparu hyfforddiant yn uniongyrchol (Colegau Adeiladu Cenedlaethol) |
| ⑬ £13.2m | Prentisiaethau |
| ⑭ £13.5m | Cynhyrchion a gwasanaethau eraill |
| ⑮ £24.9m | Costau gweinyddu'r Lefi, grantiau a chynlluniau cyllido |

**£209.1m CYFANSWM Y GWARIANT YN 2021-22**

# SUT RYDYM YN BUDDSODDI'R LEFI : GOLWG 4-BLYNEDD




## FFYNONELLAU INCWM

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Lefi | £664.9m | **Incwm o Gynhyrchion a Gwasanaethau** | **£191.3m** | **CYFANSWM YR INCWM** | **£856.2m** |
| | | Darparu hyfforddiant yn uniongyrchol (Colegau Adeiladu Cenedlaethol) | £32.4m | CRONFEYDD WRTH GEFN | £32.8m |
| | | Prentisiaethau | £37.6m | **ELW O WAREDIADAU** | **£6m** |
| | | Cynhyrchion | £121.3m | **CYFANSWM Y BUDDSODDIAD YN 2021-25** | **£895m** |

## DYRANNU'R BUDDSODDIAD A CHOSTAU

### RHOI CYLLID YN UNIONGYRCHOL I GYFLOGWYR — CYFANSWM 4-BLYNEDD £551.3m

**1 Y Cynllun Grantiau £382.2m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £83.2m |
| 2022-2023 | £94.7m |
| 2023-2024 | £96.4m |
| 2024-2025 | £107.9m |

**2 Cronfeydd ar gyfer busnesau penodol £58m***

| | |
|---|---|
| 2021–2022 | £14.5m |
| 2022–2023 | £14.5m |
| 2023–2024 | £14.5m |
| 2024–2025 | £14.5m |

**3 Prosiectau sy'n cael eu cyllido £78.1m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £18.4m |
| 2022-2023 | £21.4m |
| 2023-2024 | £18.7m |
| 2024-2025 | £19.6m |

**4 Cyllid sydd ar gael ar gyfer grantiau a phrosiectau £33m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £0m |
| 2022-2023 | £1m |
| 2023-2024 | £16m |
| 2024-2025 | £16m |

### RHOI CYMORTH ARALL — CYFANSWM 4-BLYNEDD £84.2m

**5 Gwasanaethau cefnogi cyflogwyr - ymgysylltu £24.7m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £5.2m |
| 2022-2023 | £6.4m |
| 2023-2024 | £6.5m |
| 2024-2025 | £6.6m |

**6 Safonau, cymwysterau a gwerthuso £10m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £2.4m |
| 2022-2023 | £2.5m |
| 2023-2024 | £2.5m |
| 2024-2025 | £2.6m |

**7 Polisi ac ymchwil sgiliau a chyflogaeth £9.1m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £2.2m |
| 2022-2023 | £2.2m |
| 2023-2024 | £2.3m |
| 2024-2025 | £2.4m |

**8 Prentisiaethau - gwaith i helpu cyflogwyr i ddarparu prentisiaethau £40.4m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £14.1m |
| 2022-2023 | £11.2m |
| 2023-2024 | £8.1m |
| 2024-2025 | £7m |

### DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU — CYFANSWM 4-BLYNEDD £259.5m

**9 Darparu hyfforddiant yn uniongyrchol (Colegau Adeiladu Cenedlaethol) £65.5m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £17.5m |
| 2022-2023 | £15.3m |
| 2023-2024 | £16m |
| 2024-2025 | £16.7m |

**10 Prentisiaethau - ein gwaith i helpu i gyflawni contractau prentisiaethau cenedlaethol £37.6m**

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £13.2m |
| 2022-2023 | £7.8m |
| 2023-2024 | £8.3m |
| 2024-2025 | £8.3m |

**11 Cynhyrchion a gwasanaethau eraill £58.4m****

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £13.5m |
| 2022-2023 | £15m |
| 2023-2024 | £14.9m |
| 2024-2025 | £15m |

**12 Costau gweinyddu'r Lefi, grantiau a chynlluniau cyllido £98m*****

| | |
|---|---|
| 2021-2022 | £24.9m |
| 2022-2023 | £23.4m |
| 2023-2024 | £24.3m |
| 2024-2025 | £25.4m |

* Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Microfusnesau a Busnesau Bach, y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Busnesau Canolig a'r Gronfa Datblygu Arweinwyr a Rheolwyr ar gyfer Busnesau Mawr
** Yn cynnwys cyrsiau Site Safety Plus, y prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd a chyhoeddiadau
*** Cost casglu'r Lefi yw 5.2% o'r Lefi sy'n cael ei gasglu a chost y Cynllun Grantiau a chynlluniau cyllido yw 9.6% o'r cyllid.

- Ein buddsoddiad cyfan mewn prentisiaethau yw £296.3m.
- Mae cyllid i gyflogwyr yn 82.9% o'r incwm o'r Lefi.
- Mae'r buddsoddiad mewn darparu cynhyrchion a gwasanaethau'n 48.1% o'r incwm o gynhyrchion a gwasanaethau.
- Mae'r buddsoddiad mewn cyllid a gwasanaethau'n 95.6% o'r incwm o'r Lefi.